OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 774 (Cy.64)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *16 Mawrth 2005* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 9(2) a (3) o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**1**), adrannau 23(2)(a), (f)(ii), (5), 26(1), (2), 59(2), (3), 104(4), Atodlen 2, paragraffau 12, 13, 14, Atodlen 4, paragraff 4(1), (2)(d), Atodlen 5, paragraff 7(1), (2)(g), ac Atodlen 6, paragraff 10(1) o Ddeddf Plant 1989(**2**) a chan adrannau 1(4), 16(2), 22(1), (2)(a) i (d), (f) i (j), (5)(a) a (c), (7)(a) i (h), (j), (8)(c), 25(1), 33, 34(1), 35, 77(2) ac 118(4) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**4**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 15(1)(e), ar ôl y geiriau "children's guardian or reporting officer", mewnosoder y geiriau "or Welsh family proceedings officer"(**5**).

(**1**) 1976 p.36. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol, a ddiffinnir yn adran 9(5) o Ddeddf 1976 fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr, a'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Cynulliad Cymru yn gweithredu ar y cyd o ran Cymru a Lloegr.

(**2**) 1989 p.41. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1989 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd cynnwys Deddf 1989 yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) (*gweler* erthygl 2(a) o Orchymyn 1999 ac adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)).

(**3**) 2000 p.14.

(**4**) 1983 O.S. Rhif 1964.

(**5**) Diffinnir "Welsh family proceedings officer" yn adran 35 o Ddeddf Plant 2004 (2004 p.31).

**Diwygio Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991(**6**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Bob tro y mae'r geiriau "officers of the service" yn ymddangos yn rheoliad 11, mewnosoder y geiriau "and Welsh family proceedings officers" ar eu hôl.

**Diwygio Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991**

**4.**—(1) Diwygir Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991(**7**) yn unol â dapriaethau canlynol y rheoliad hwn.

(1) Yn rheoliad 2A(1)(c) ar ôl "Support Service", mewnosoder "or a Welsh family proceedings officer where the child is ordinarily resident in Wales".

**Diwygio Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001**

**5.**—(1) Diwygir Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001(**8**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ar ddiwedd rheoliad 17, ychwaneger "a Chynulliad Cenedlaethol Cymru o ran ei swyddogaethau o dan adran 35 o Ddeddf Plant 2004".

**Diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002**

**6.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002(**9**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(1) Yn rheoliad 15(2)(b) ar ôl "a Theuluoedd" mewnosoder "neu Swyddog Achosion Teuluol".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**10**).

*D. Elis-Thomas*

16 Mawrth 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1991 O.S. Rhif 890.
(**7**) 1991 O.S. Rhif 895.
(**8**) 2001 O.S. Rhif 2787 (Cy. 237).
(**9**) 2002 O.S. Rhif 327.
(**10**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983, Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991, Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991, Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 a Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 sydd o ganlyniad i drosglwyddo swyddogaethau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd ("CAFCASS") yng Nghymru i swyddogion achosion teuluol Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Diwygir cyfeiriadau yn y pum set o reoliadau at warcheidwaid plant neu swyddogion cofnodi, swyddogion y gwasanaeth a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd fel eu bod yn cynnwys cyfeiriad at swyddogion achosion teuluol Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n arfer ei swyddogaethau o dan adran 35 o Ddeddf Plant 2004.